Adroddiad Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog 2018

Nos Wener 9 Tachwedd, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben eto eleni gyda'r beirniaid yn canmol safon uchel iawn y cystadlu ar lwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref – gyda bron i 500 yn cystadlu yn yr adrannau arlunio, graffeg gyfrifiadurol a llenyddiaeth. Bu oddeutu 100 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn frwd ar y llwyfan. Cafwyd cystadleuwyr lleol yn ogystal â rhai o gyn belled â Phwllheli, Caerdydd a'r Eidal hyd yn oed! Enillydd y Gadair eleni oedd Elin Edwards, Llansannan sy'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Roedd y gwaith creadigol hwn o'r safon uchaf yn ôl y beirniad.

Eleni, y beirniaid oedd: Ceri Roberts, Henllan (Cerddoriaeth); Rhian Iorwerth, Rhuthun (Llenyddiaeth a Llefaru); Nia Davies, Cefn Meiriadog (Arlunio) a'r cyfeilydd oedd Ann Edwards, Prion.

Rhaid diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion, athrawon, rhieni, hyfforddwyr a'r cystadleuwyr, a'r tîm o wirfoddolwyr am gyfrannu tuag at lwyddiant yr Eisteddfod eleni eto. Diolch hefyd i holl noddwyr yr Eisteddfod; sef Bwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau, Clwb Llyfrau Llandyrnog, Cyngor Cymuned Llandyrnog, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Llais Llandyrnog Voice, Llandyrnog Tuesday Club, Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a nifer o deuluoedd lleol.

ENILLWYR EISTEDDFOD LLANDYRNOG 2018

LLENYDDIAETH

Y Gadair (dan 25 oed): **Elin Edwards, Llansannan Rhos**
Blwyddyn 2 ac iau: **Cadi, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Nest Emlyn, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Lleucu Jones, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 7 – 9: **Alys Jones, Ysgol Maes Garmon**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Nanw Maelor, Ysgol Maes Garmon**

LLENYDDIAETH I DDYSGWYR

Dysgwyr Blwyddyn 6 ac iau: **Evie Williams, Ysgol Gellifor**
Dysgwyr Blwyddyn 7 – 9 : **Eddie Perrin, Ysgol Bryn Hyfryd**
Dysgwyr Blwyddyn 10 – 21oed: **Sian Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

LLEFARU

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Megan**
Blwyddyn 1 a 2: **Annie, Ysgol Llanfair DC**
Blwyddyn 3 a 4: **Malan, Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Efa Gwen, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Mali Elwy, Ysgol Glan Clwyd**

LLEFARU I DDYSGWYR

Blwyddyn 1 a 2: **Demi, Ysgol Bryn Clwyd**
Blwyddyn 3 a 4: **Ethan, Ysgol Gellifor**

Blwyddyn 5 a 6: **Ted, Ysgol Bryn Clwyd**

CANU

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Leusa**
Blwyddyn 1 a 2: **Seren**
Blwyddyn 3 a 4: **Sion, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 5 a 6: **Beca, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 7 – 9: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

Blwyddyn 6 ac iau Cân Werin: **Beca, Dinbych**
Blwyddyn 7 – 9 Cân Ysgafn neu Sioe Gerdd: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 i 21 oed Cyflwyniad 5 - 8 munud: **Mali Elwy, Ysgol Glan Clwyd**

OFFERYNNOL

Blwyddyn 6 ac iau Piano: **Arthur, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 6 ac iau Offeryn arall: **Lea Mererid, Ysgol Cymerau**
Blwyddyn 7 – 9 Piano: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

CERDD DANT

Blwyddyn 3 ac iau: **Nêst Emlyn, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 4 – 6: **Beca, Dinbych**

ARLUNIO

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Ifan Wood, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 1 a 2: **Megan, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Harry Lunde-Ferguson**, **Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 5 a 6: **Alisha Whitehead-Hughes, Ysgol Bryn Clwyd**
Blwyddyn 7 – 9: **Elinor Wyn Griffith, Ysgol Glan Clwyd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Tomos Wynstanley, Ysgol Bryn Hyfryd**

GRAFFEG GYFRIFIADUROL

Blwyddyn 2 ac iau: **Megan Jones, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Lloyd, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 5 a 6: **Aled Roberts, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 7 – 9: **Elin Ellis, Ysgol Glan Clwyd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Owain Mckee, Ysgol Bryn Hyfryd**